

# Pleidleisiau a Thrafodion – Y Cyfarfod Llawn

---

Lleoliad y cyfarfod:

**Zoom**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 13 Ionawr 2021

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

<http://senedd.tv/cy/11147>

## **315(v2)**

---

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf rhithwir, gyda'r Aelodau yn ymuno drwy gyswllt fideo.

### **1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

### **2 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg**

Dechreuodd yr eitem am 14.22

Gofynnwyd y 7 cwestiwn cyntaf. Cafodd cwestiynau 2 a 4 eu grwpio i'w hateb gyda'i gilydd. Gwahoddodd y Dirprwy Lywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

### **3 Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd**

Dechreuodd yr eitem am 15.19

Gofynnwyd y 3 cwestiwn cyntaf.

### **4 Cwestiynau Amserol**

Ni dderbyniwyd unrhyw Gwestiynau Amserol.



## 5 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 15.35

Gwnaeth Helen Mary Jones ddatganiad am: Mae 'Mr Hunlun' yn ôl i godi arian i Elusen Hofrennydd Achub Bywyd | Ymddiriedolaeth Elusennol Ambiwylans Awyr Cymru.

## 6 Dadl ar ddeisebau sy'n ymwneud â mynediad at gyfleusterau chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn ystod cyfyngiadau symud

Dechreuodd yr eitem am 15.37

NDM7543 [Janet Finch-Saunders \(Aberconwy\)](#)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi'r deisebau canlynol ynglŷn â mynediad at gyfleusterau chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn ystod cyfyngiadau symud:

- a) Deiseb '[P-05-1053 Cadwch gampfeydd ar agor ac ystyriwch eu bod nhw mor bwysig â siopau, os cyflwynir cyfyngiadau symud cenedlaethol unwaith yn rhagor](#)' a gasglodd 20,616 o lofnodion;
- b) Deiseb '[P-05-1063 Dylid agor cyrsiau golff gan eu bod yn chwarae rôl hanfodol o ran gwella iechyd corfforol ac iechyd meddyliol](#)' a gasglodd 6,317 o lofnodion; ac
- c) Deiseb '[P-05-1074 Cynyddwch nifer y bobl sy'n cael bod mewn mannau awyr agored fel y gall pob tîm yng Nghymru ailddechrau chwarae pêl-droed](#)' a gasglodd 5,330 o lofnodion.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

## 7 Dadl Grŵp Y Gynghrair Annibynnol dros Ddiwygio – Gohiriwyd

Gohiriwyd yr eitem hon.

## 8 Cyfnod pleidleisio

Ni chafwyd cyfnod pleidleisio.

## 9 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 16.24

NDM7532 [Mark Reckless \(Dwyrain De Cymru\)](#)

Datblygiadau cyfansoddiadol yng Nghymru.

Daeth y cyfarfod i ben am 16.42

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 19 Ionawr 2021**